

## **Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

### **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Cymru) Deddf gwaith craffu gwaith adroddiad**

#### **Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ymatebion**

#### **Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i chynllun cyflawni arfaethedig sy'n cyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol, bennu dyddiadau cyflawni penodol, unigol ar gyfer:**

- pob set o ganllawiau statudol sydd heb eu rhoi ar waith;
- y canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â pharatoi strategaethau lleol;
- y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y mewnosodir gan adran 9 o'r Ddeddf) yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn adrodd ar sut mae eu sefydliadau addysgol yn gweithredu'r Ddeddf;
- cyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr.

Derbyn – Nid oes unrhyw set o ganllawiau sydd heb eu rhoi ar waith. Bydd y fframwaith cyflawni'n rhestru'r holl ganllawiau statudol y bwriadwn eu cyhoeddi er mwyn gweithredu'r Ddeddf.

Bydd y fframwaith traws-lywodraethol, sydd i'w gyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid allweddol ac aelodau o'm Grŵp Cynghori, yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r camau gweithredu yn y Strategaeth, pa sefydliadau y byddwn yn gweithio gyda hwy a'n disgwyliadau gan Awdurdodau Perthnasol wrth gyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf.

Ystyrir Canllawiau Cydweithredu Amlasiantaeth yng ngoleuni Papur Gwyn Llywodraeth Leol y bwriedir ei gyhoeddi'n fuan a'r gwaith a wneir o ran dulliau cyllido rhanbarthol.

Caiff y cynllun ar gyfer cyflwyno Gofyn a Gweithredu ei ddatblygu o fis Gorffennaf 2017 ymlaen mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a Cymorth i Ferched Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried y materion y bydd angen mynd i'r afael â hwy o ran comisiynu gwasanaethau, gyda'r bwriad o ymgynghori ar ganllawiau comisiynu statudol, fel y bo'n briodol, erbyn Gorffennaf 2017.

Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni dyletswyddau Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan y Ddeddf. Mae Adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol bod Strategaethau Lleol yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Mai 2018. Wrth baratoi Strategaethau Lleol, rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried y Strategaeth Genedlaethol. Caiff canllawiau eu cyhoeddi mewn perthynas â strategaethau lleol ym mis Gorffennaf 2017.

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi amserlen ar gyfer pryd y bydd y dangosyddion cenedlaethol o dan adran 11 o'r Ddeddf yn cael eu cyhoeddi.**

Derbyn – gellir disgwyl y bydd y Dangosyddion Cenedlaethol drafft yn cael ei datblygu erbyn mis Gorffennaf 2017. Ceir ymgynghoriad ffurfiol yn dilyn hyn. Ni fydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi cyn mis Hydref 2017. Rhaid i'r rhain gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyhoeddi'r canllawiau comisiynu statudol ar gyfer gwasanaethau arbenigol.**

Derbyn – cafodd y pecyn cymorth comisiynu cydweithredol ar gyfer gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru ei lansio gan Sefydliad Lloyds Bank ar 16 Awst 2016. Mae'r pecyn cymorth yn helpu comisiynwyr i ddeall sut i gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol megis asesiad trylwyr o anghenion ac mewn ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr arbenigol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried y materion y mae angen mynd i'r afael â hwy o ran comisiynu gwasanaethau gyda'r bwriad o ymgynghori ar ganllawiau statudol, fel y bo'n briodol, erbyn Gorffennaf 2017 er mwyn darparu dull o gomisiynu gwasanaethau arbenigol sy'n gyson yn genedlaethol, ac sy'n ategu'r wybodaeth yn y pecyn cymorth hwn.

Cyhoeddwyd y Datganiad o Ddisgwyliadau Cenedlaethol gan y Swyddfa Gartref ym mis Rhagfyr 2016. Er bod y Datganiad wedi'i anelu'n bennaf at gyrff cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau yn Lloegr, dylai hwn hefyd gyfrannu at ddatblygu'r canllawiau comisiynu.

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol am sut y gallant gysoni pecynnau hyfforddi, asesiadau o'r angen a fframweithiau canlyniadau â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Derbyn – caiff gwaith ar yr elfen hyfforddi ei gyflawni gan y Gweithdy Gwersi a Ddysgwyd a'r Grŵp Traws-lywodraethol. Bydd Swyddogion y Grŵp Datblygu Cynnwys yn ystyried ymhellach sut y gellir cysoni pecynnau hyfforddi yn well.

Bydd canllawiau ar ddatblygu Cyd-strategaethau Lleol hefyd yn ymgorffori'r materion a nodwyd. Bydd y Dangosyddion Cenedlaethol hefyd yn ystyried y fframweithiau canlyniadau amrywiol sy'n bodoli gyda'r bwriad, lle y bo'n bosibl, o gysoni ac integreiddio mesurau canlyniadau yn hytrach na dyblygu.

Byddwn yn sicrhau bod y Dangosyddion Cenedlaethol yn gyson â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn cael eu hintegreiddio â'r Deddfau hyn.

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi amserlen ar gyfer pa bryd y bydd Bwrdd Cynghori ynglŷn â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cwblhau ei waith ar greu model cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector arbenigol (a phryd y bydd hyn yn cael ei gyfathrebu). Dylai hefyd sicrhau bod cyllid digonol ar gael i'r sector er mwyn ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw yn sgil y Ddeddf.**

Derbyn – roedd cyllideb 2016-17 yn cynnwys cynnydd yn elfen refeniw'r Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig o £400,000. Mae'r cynnydd hwn mewn cyllid wedi'i ddyrannu er mwyn symud ffocws y cyllid tuag at weithredu'r Ddeddf. Bydd cyllideb 2017-18 yn parhau'n ddigyfnewid ar £4.5 miliwn.

Yn ystod 2017-18 byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i symud yn llawn at ddull cyllido rhanbarthol, yn cynnwys cyllid a ddarperir i sefydliadau'r trydydd sector ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd hyn yn rhoi'r ymreolaeth i Awdurdodau Lleol gysoni fel y gwelant orau er mwyn darparu gwell cysondeb a chydweithredu amlasiantaethol effeithiol ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Penderfynir ar gyllid ar sail ranbarthol drwy fwrdd neu grŵp rhanbarthol.

Mae'r prif ganlyniadau a ddisgwylir gan ddull mwy rhanbarthol yn cynnwys:

- dull gwell o gysoni dyraniadau cyllid â chyfeiriad polisi ac amcanion y Ddeddf;
- mwy o ffocws ar gyllid er mwyn ategu'r broses o ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol yn hytrach na chydgysylltu cyffredinol;
- gwell gwerth am arian ac arbedion effeithlonrwydd gyda dull rhanbarthol o gyllido gwasanaethau ar y cyd;
- llai o ddyblygu;
- atgyfnerthu atebolrwydd a chydweithrediad partneriaethau lleol a rhanbarthol drwy annog ardaloedd i gydweithio er mwyn blaenoriaethu eu hamcanion a chynllunio i fynd i'r afael ag ardaloedd blaenoriaeth;
- newid pwyslais y broses o gydgyssylltu achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ardaloedd ôl-troed gyda'r bwriad o sicrhau gwell rheolaeth a throsolwg strategol, yn cynnwys rôl allweddol mewn comisiynu;
- mwy o hyblygrwydd i ardaloedd lleol/rhanbarthol ddefnyddio dyraniadau cyllid i ddiwallu'r anghenion penodol a nodir yn eu hardaloedd;
- dull llywodraethu gwell a gwell arweinyddiaeth strategol gyda'r cyfle i sefydlu Byrddau Rhanbarthol;
- dull mwy cyson o ystyried dioddefwyr risg uchel ar draws y rhanbarthau e.e. mae darpariaeth cynghorwyr trais domestig annibynnol yn amrywio ar hyn o bryd ar draws Awdurdodau Lleol gyda'r ddarpariaeth yn cael ei chynnal gan sefydliadau gwahanol sydd â chronfeydd cyllido gwahanol a rolau gwahanol.

Mae datblygu model cyllido cynaliadwy yn flaenoriaeth er mwyn cyflawni'r Strategaeth Genedlaethol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu cyllid presennol Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael. Yn ogystal, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu'r gwaith hwn er mwyn ystyried egwyddorion yr hyn a olygir gan fodel ar gyfer cyllid cynaliadwy, cwmpas y gwaith sy'n ofynnol, ac ystyried modelau o rannau eraill o'r DU a thu hwnt.

Byddaf yn cael adroddiad ar y cynnydd yn y Grŵp Cynghori ym mis Gorffennaf 2017.

**Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau brys gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch y trefniadau cyllido ar gyfer cynghorwyr trais domestig annibynnol a chynadleddau asesu risg amlasiantaeth yng Nghymru er mwyn asesu effaith unrhyw arian a gllir, a sut y gall y gronfa drawsnewid newydd sbarduno gwaith partneriaeth.**

Derbyn – cafwyd trafodaethau.

Mae cyllid ar gyfer cynghorwyr trais domestig annibynnol yn amrywio ar draws ardaloedd a/neu ranbarthau Awdurdodau Lleol. Caiff y rhan fwyaf eu cyllido drwy gyfuniad o gyllid gan y Swyddfa Gartref, cyllid Grant Gwasanaethau Trais Domestig Llywodraeth Cymru, cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac mewn rhai ardaloedd cyllid grant craidd gan Awdurdodau Lleol.

Agorwyd rhaglen Grant Cyfalaf Gwasanaethau Cam-drin Domestig i wahodd cynigion Achos Busnes gan sefydliadau sy'n gweithio o fewn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n seiliedig ar anghenion a nodwyd yn eu hardal. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion oedd 31 Ionawr 2017 a bydd swyddogion yn asesu'r Achosion Busnes yn erbyn meini prawf sgorio Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn cyflwyno dull cyllido rhanbarthol ledled y wlad ar gyfer y Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig o 01 Ebrill 2018. Mae hyn eisoes wedi dechrau cael ei weithredu ar draws rhai ardaloedd awdurdodau lleol. Bydd 2017-2018 yn flwyddyn bontio a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau perthnasol a rhanddeiliaid perthnasol i symud at fodel cyllido a chomisiynu rhanbarthol.

Drwy ystyried 2017-18 fel blwyddyn bontio bydd modd gwneud gwaith cwmpasu a chynllunio pellach, gan gynnwys gweithio ar faterion daearyddol, asesiad o anghenion seilwaith a mynd i'r afael â blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Ddeddf ac yn y Strategaeth Genedlaethol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhagnodi sut y dylai ardaloedd gydweithredu er mwyn darparu eu gwasanaethau i gefnogi amcanion y Ddeddf a'r Strategaeth Genedlaethol, ond bydd yn annog ac yn cefnogi Awdurdodau Lleol i greu partneriaethau i ddarparu'r gwasanaethau.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi cyd-strategaethau lleol a fydd yn cyfrannu at fynd ar drywydd diben y Ddeddf. Rhaid cyhoeddi'r strategaethau hyn 12 mis ar ôl yr etholiadau nesaf h.y. mis Mai 2018.

Rhaid i strategaethau lleol hefyd ystyried yr asesiad mwyaf diweddar o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; asesiad strategol o'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn, asesiad strategol o gamddefnyddio sylweddau ac asesiad strategol o leihau aildroseddu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried datblygu model ar gyfer cyllid cynaliadwy er mwyn darparu gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ategu'r broses o gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, swyddogion, sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid perthnasol eraill.

Fel y nodwyd yn y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2020, mae'r Swyddfa Gartref yn anelu at symud o fodel arian cyfatebol cenedlaethol uniongyrchol ar gyfer swyddi unigol megis Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol a Chynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol tuag at fodel sy'n cefnogi gwasanaethau hanfodol yn y gymuned drwy gyllido rhaglenni lleol sy'n ategu gwasanaethau presennol ac yn ychwanegu atynt, gan annog gwell cydweithredu a dulliau cydgysylltiedig, newydd rhwng y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, awdurdodau lleol a chomisiynwyr iechyd a chydau darparwyr gwasanaethau arbenigol Trais yn erbyn Menywod a Merched.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ac er ein bod wedi pwysu ar y Swyddfa Gartref i ddyrannu cyfran o'r cyllid i alluogi Llywodraeth Cymru i ddosbarthu'r cyllid yng Nghymru, nid ydynt wedi cytuno i hyn. Fodd bynnag, rydym yn croesawu cyhoeddiad y gronfa drawsnewid a'i chymhwysra ar gyfer partneriaethau yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle i'r gronfa gefnogi cydweithredu pellach rhwng y sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan gyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf.

Mae swyddogion wedi ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol a rhanddeiliad i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfle hwn gan eu hannog i wneud cais ar y cyd am gyllid i ategu'r broses o gyflawni'r Ddeddf a'r Strategaeth Genedlaethol a gweithio tuag at well cysondeb a chydgyssylltiad o ran darpariaeth er mwyn diwallu anghenion unigolion a theuluoedd yng Nghymru.

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob strategaeth, gwasanaeth, rhaglen hyfforddi a set o ganllawiau sy'n cael eu paratoi neu'n cael eu comisiynu yn sgil y Ddeddf:**

– yn mynd i'r afael â phob math o drais a gwmpesir gan y Ddeddf, ac nid dim ond cam-drin domestig;

– yn defnyddio diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Derbyn yn Rhannol – mae'r Ddeddf yn cwmpasu pob math o drais yn seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y'u diffinnir yn Adran 24 o'r Ddeddf.

Mae gan y Ddeddf ei diffiniadau ei hun ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac nid yw'r rhain yn cyfeirio at ddiffiniadau'r Cenhedloedd Unedig.

Nid bwriad y Ddeddf na'r Strategaeth Genedlaethol ddilynol yw blaenoriaethu Cam-drin Domestig a byddwn yn gweithio drwy ddulliau presennol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Caiff y Strategaeth Genedlaethol a'r dull o'i chyflawni dros y 5 mlynedd nesaf eu llywio gan y dystiolaeth fyd-eang a chenedlaethol bod cam-drin domestig, trais a thrais rhywiol, cam-fanteisio'n rhywiol (yn cynnwys drwy'r diwydiant rhyw), caethwasiaeth fodern, priodas dan orfod, anffurfio organau cenedlu benywod, cam-drin plant yn rhywiol, stelcian ac aflonyddu rhywiol yn effeithio'n anghyfartal ar fenywod a merched.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn cydnabod yn glir y gall cam-drin domestig, trais a thrais rhywiol, cam-drin rhywiol, priodas dan orfod, cam-drin plant yn rhywiol, stelcian ac aflonyddu, aflonyddu rhywiol a chamfanteisio effeithio ar unrhyw un a gall unrhyw un eu profi. Gall ddigwydd o fewn unrhyw berthynas waeth beth fo'r rhyw, oed, ethnigrwydd, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gred, incwm, daearyddiaeth neu ffordd o fyw.

Er ei bod yn bwysig cydnabod profiad anghymesur menywod a merched nid yw hyn yn gwadu nad oes trais a chamdriniaeth wedi'u cyfeirio at ddynion a bechgyn neu a gyflawnir gan fenywod. Rydym yn cydnabod y gall y materion hyn effeithio ar unrhyw un ac y gall unrhyw un eu profi.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar 17 Mawrth 2016. Daeth gofynion adran 15 o'r canllawiau i rym ar 1 Ebrill 2016. Nod y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yw darparu hyfforddiant cyson a gaiff ei ledaenu'n gyfartal i'r awdurdodau perthnasol er mwyn gwella eu dealltwriaeth a'u hymateb yn y pen draw i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae gwefan Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth a chynghor i ddynion a menywod a allai fod yn profi achosion o gam-drin domestig neu drais rhywiol.

Mae ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi cwmpasu ystod o bynciau, yn cynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol a rheolaeth orthrymol. Mae pob un o'r rhain wedi bod yr un mor berthnasol i

ddioddefwyr sy'n ddynion a menywod, er bod rhai ymgyrchoedd wedi'u cyfeirio'n benodol at ddiodefwyr sy'n ddynion.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod sefydliadau ac unigolion yng Nghymru yn cydweithio'n effeithiol i ddileu pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nodweddion gwarchoddedig a'r angen i sicrhau bod y dull yng Nghymru yn gynhwysol ac yn cael ei arwain gan anghenion, yn seiliedig ar gryfderau ac ar y rhywiau er mwyn ymateb yn briodol i anghenion unigol a nodi â rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau a mynd i'r afael â hwy.

### **Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder:**

- i egluro statws cyfreithiol y cynllun cyflawni sydd ar y gweill, a gorau oll os gellir cyhoeddi hwnnw ar ffurf canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod modd ei orfodi;
- i amlinellu pa bryd y cyhoeddir y cynllun cyflawni, a sut yr ymgynghorir yn ei gylch;
- i sicrhau bod y deg argymhelliad gan oroeswyr sydd yn yr adroddiad 'Are you listening and am I being heard?' yn cael eu hystyried yn llawn yn ystod y broses o ddatblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.

Derbyn – caiff statws cyfreithiol y Fframwaith Cyflawni ei ystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a sefydlwyd gan y Grŵp Cynghori i ddatblygu'r cynllun, gyda mewnbwn gan y Grŵp Swyddogion Traws-lywodraethol. Bydd y Grŵp Cynghori'n craffu ar y fframwaith cyn ei gyhoeddi.

Bydd rhanddeiliaid yn sicrhau bod y cerrig milltir cyflawni a'r amcanion yn cael eu cyflawni ar y sail y byddant wedi cyfrannu'n sylweddol at eu datblygu.

Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fydd yn penderfynu ar yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Fframwaith, gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2017. Cynhelir proses ymgynghori lawn gyda Rhanddeiliaid cyn cyhoeddi'r fframwaith.

Fel y nodwyd yn Adroddiad y Pwyllgor cafodd y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol ei lywio gan sylwadau a phrofiadau goroeswyr a chafodd y 10 argymhelliad a nodwyd o fewn yr Adroddiad Ymgysylltu â Goroeswyr – "Are you listening, am I being heard" eu cynnwys yn y Strategaeth Genedlaethol derfynol a gyhoeddwyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod lleisiau goroeswyr yn cael eu clywed ac yn cael eu defnyddio i lywio'r fframwaith cyflawni, y fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr a'r fframwaith cyfathrebu cenedlaethol tymor hwy gan barhau i ymgysylltu â goroeswyr yn barhaus wrth ddatblygu ein polisïau a'n gwasanaethau.

### **Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnwys addysg perthnasoedd iach yn y cwricwlwm newydd o dan y Maes Dysgu a**

## **Phrofiad 'Iechyd a Llesiant', a sicrhau y caiff hyn ei ddarparu ym mhob ysgol.**

Derbyn yn Rhannol – Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i gael gwybodaeth a data ar yr hyn y mae lleoliadau addysg o fewn awdurdodau lleol yn ei gyflawni ar hyn o bryd o ran darpariaeth Addysg sy'n deillio o'r Ddeddf, gan sefydliadau allanol sydd wrthi'n gwella'r broses o gyflwyno Addysg Perthnasoedd Iach mewn ysgolion. O ystyried y cytundeb na ellir rhoi baich ychwanegol ar ysgolion i gael gwybodaeth, mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a Hafan Cymru yn ddau sefydliad yng Nghymru a ariennir gan grantiau Llywodraeth Cymru a allai ddarparu'r wybodaeth hon o bosibl yn y tymor byr.

Gan edrych at y dyfodol, rydym yn wynebu diwygiadau i'r system addysg ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar bedwar diben a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r broses o gynllunio cwricwlwm newydd yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan rwydwaith o Ysgolion Arloesi a'r gobaith yw y bydd y cwricwlwm ar gael i leoliadau ac ysgolion o 2018 ymlaen ac yn cael ei ddefnyddio i ategu dysgu ac addysgu o 2021.

Bydd y gwaith o ddatblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynnwys ystyried dulliau o gyflwyno Addysg Perthnasoedd Iach ac felly mae posibilrwydd y gellir ystyried hyn yn rhan o'r gwaith cyffredinol sy'n cael ei gyflawni.

**Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob ysgol, (ac yn arbennig y rhwydwaith o Ysgolion Arloesi) yn defnyddio'r Canllaw Arfer Da, a dylai sefydlu trefniadau monitro i fesur effeithiolrwydd y canllaw hwnnw. Ar ôl gwerthuso'r Canllaw, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei wneud yn ganllawiau statudol.**

Derbyn – Caiff hwn ei ddatblygu gan adolygiad thematig Estyn o ddarpariaeth perthnasoedd iach bresennol sy'n cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn academaidd 2016-2017 a fydd yn cwmpasu detholiad o ysgolion. Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar y bydd Ysgolion Arloesi'n ymgymryd â Meysydd Dysgu a Phrofiad penodol, mae trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Estyn ar hyn o bryd i gadarnhau a ellir ymweld â mwy o ysgolion, yn enwedig Ysgolion Arloesi, fel rhan o'r adolygiad hwn.

Bydd y Canllaw Arfer Da, adnoddau a'r adolygiad thematig, gyda'i gilydd, yn llywio'r Canllawiau Statudol a'r rheoliadau. Bydd y gofynion adrodd a roddir ar Awdurdodau Lleol yn ategu'r trefniadau monitro ar gyfer dulliau ac arferion sy'n cael eu mabwysiadu ledled Cymru.

Bydd adroddiad Estyn yn darparu'r canlynol:

- Arolwg cyflwr y genedl amlinellol ar y graddau y mae addysg perthnasoedd iach yn cael ei darparu i ddisgyblion mewn ysgolion ledled Cymru
- Astudiaethau achos o arfer gorau i hyrwyddo gwelliannau mewn addysgu a dysgu



- Tystiolaeth ynghylch a yw strwythurau presennol o ran diogelu yn cael eu defnyddio i gefnogi ysgolion i ddelio â materion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Tystiolaeth o'r modd y gall arweinyddiaeth gan benaethiaid a llywodraethwyr effeithio ar y gwaith o ddarparu addysg perthnasoedd iach cadarnhaol
- Tystiolaeth o'r modd y mae athrawon yn defnyddio adnoddau a sefydliadau allanol i gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg perthnasoedd iach cadarnhaol
- Adborth ac argymhellion ymarferol ar sut y gellid gwella ymarfer

**Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru brysuero i baratoi'r rheoliadau o dan adran 29(6A) o Ddeddf Addysg 1996 ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth gan awdurdodau lleol am sut y maent yn rhoi eu swyddogaethau ar waith i hyrwyddo diben y Ddeddf. Dylai ymrwymo hefyd i fynnu bod awdurdodau lleol yn dechrau adrodd erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2017/18.**

Derbyn yn Rhannol – Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i gael gwybodaeth a data ar yr hyn y mae lleoliadau addysg o fewn awdurdodau lleol yn ei gyflawni ar hyn o bryd o ran darpariaeth Addysg sy'n deillio o'r Ddeddf, gan sefydliadau allanol sydd wrthi'n gwella'r broses o gyflwyno Addysg Perthnasoedd Iach mewn ysgolion. O ystyried y cytundeb na ellir rhoi baich ychwanegol ar ysgolion i gael gwybodaeth, mae Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a Hafan Cymru yn ddau sefydliad yng Nghymru a ariennir gan grantiau Llywodraeth Cymru a allai ddarparu'r wybodaeth hon o bosibl yn y tymor byr.

Gan edrych at y dyfodol, rydym yn wynebu diwygiadau i'r system addysg ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar bedwar diben a nodir yn Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r broses o gynllunio cwricwlwm newydd yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan rwydwaith o Ysgolion Arloesi a'r gobaiht yw y bydd y cwricwlwm ar gael i leoliadau ac ysgolion o 2018 ymlaen ac yn cael ei ddefnyddio i ategu dysgu ac addysgu o 2021 ymlaen.

Bydd y gwaith o ddatblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynnwys ystyried dulliau o gyflwyno Addysg Perthnasoedd Iach ac felly mae posibilrwydd y gellir ystyried hyn fel rhan o'r gwaith cyffredinol sy'n cael ei gyflawni.

**Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r pecyn o adnoddau a deunyddiau a luniwyd gan Cymorth i Ferched Cymru ac AVA (Against Violence and Abuse) i'w defnyddio ochr yn ochr â'r Canllaw Arfer Da.**

Derbyn – cyhoeddwyd y pecyn cymorth hwn ym mis Rhagfyr 2016.

**Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd addysg perthnasoedd da a chydsynio'n cael ei darparu gan sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, gan gynnwys trefnu i gyhoeddi canllawiau gan**

**Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan adran 10 o'r Ddeddf.**

Derbyn – caiff hyn ei ystyried gyda chydweithwyr Addysg Uwch gan gyfeirio at brosiectau sydd eisoes ar waith o fewn Addysg Bellach ac Uwch.

**Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu capasiti rôl y Cynghorydd Cenedlaethol, gan ystyried dyrannu adnoddau ychwanegol iddi ar gyfer gwaith ymchwil ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau lleol.**

Derbyn – mae hyn wedi cael ei drafod a'i ystyried gyda'r Cynghorydd Cenedlaethol ac rydym wedi cytuno i'w adolygu'n barhaus.

**Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gosbau sydd ar gael i Weinidogion Cymru oni fydd awdurdodau'n cyflawni gofynion y Ddeddf.**

Derbyn – Rhaid i awdurdodau perthnasol ddilyn unrhyw ganllawiau adran 15 a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid yw awdurdod perthnasol o dan y cyfryw ddyletswydd os bydd gan yr awdurdod reswm da dros beidio â dilyn y canllawiau, yn penderfynu dilyn polisi gwahanol ac yn cyhoeddi datganiad polisi. Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod perthnasol i gymryd unrhyw gamau priodol, os nad yw'r datganiad polisi'n debygol o gyfrannu at fynd ar drywydd y Ddeddf ym marn Gweinidogion Cymru. Rhaid i awdurdod perthnasol gydymffurfio â Chyfarwyddyd o'r fath.

Caiff Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG a Gwasanaethau Tân ac Achub eu diffinio fel "awdurdodau perthnasol" o dan y Ddeddf ac maent yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau uchod.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog cydweithredu ac ymddiriedaeth rhwng Llywodraeth Leol a llywodraeth ganolog a bydd yn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i lynu at eu dyletswyddau os yn briodol. O ganlyniad, byddai modd mynd i'r afael ag unrhyw broblemau posibl yn gynnar a byddai awdurdodau perthnasol yn cael cymorth gan Lywodraeth Cymru i wneud hyn er mwyn sicrhau na cheir sefyllfaoedd o ddiffyg cydymffurfio.

**Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio at y Cynghorydd Cenedlaethol, ei chyfrifoldebau a'i chynllun gwaith blynyddol yn y cynllun cyflawni ac mewn unrhyw strategaethau cenedlaethol a lleol yn y dyfodol.**

Derbyn – Fel y nodwyd uchod, mae'r fframwaith yn cael ei ddatblygu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen ond bydd swyddogion yn sicrhau bod y Grŵp yn ymwybodol o'r argymhelliad hwn.